# Ysgol Bro Gwaun

Pennaeth / Headteacher: Mr Paul Edwards

Annwyl riant/gofalwr,

Wrth i ni symyd at wyliau hanner tymor mis Chwefror hoffwn eich diweddaru ar ddatblygiadau yn yr ysgol a rhannu rhai dyddiadau allweddol gyda chi.

**Gweithgareddau a Digwyddiadau.**

Mae wedi bod yn hanner tymor eithriadol o brysur a chyffrous yn y maes allgyrsiol. Mae llawer o'n disgyblion wedi cynrychioli'r ysgol ar draws nifer o weithgareddau chwaraeon, cerddorol a diwylliannol ac rydym yn falch iawn o allu rhannu'r manylion hyn gyda chi ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Ymunwch â ni ar ein cyfrif facebook Ysgol Bro Gwaun am fwy o fanylion.

**Dyddiadau allweddol ar gyfer yr hanner tymor nesaf. (Nodwch y diwrnod HMS ar ddydd Gwener 21 Mawrth)**

Dydd Llun Chwefror 24ain – Dydd Gwener Chwefror 28ain Hanner Tymor
Dydd Llun Mawrth 3ydd – Disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol.
Dydd Mawrth 11eg Mawrth – Noson Helpu O Adref Blwyddyn 7 ac 8 (Gweler isod).
Dydd Gwener Mawrth 21ain - Diwrnod HMS YBG - **dim ysgol i ddisgyblion.**
Dydd Mercher 26ain Mawrth – Noson Cynnydd Blwyddyn 10
Dydd Mawrth 1af Ebrill – Noson Helpu o'r Cartref Blwyddyn 10 (manylion i ddilyn)
Dydd Gwener 11 Ebrill – diwrnod olaf y tymor – dechrau gwyliau'r Pasg

**Adolygu Arholiadau TGAU Blwyddyn 11 a 10.**

Ein ffocws allweddol dros yr wythnosau nesaf fydd sicrhau bod ein disgyblion TGAU ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn cael eu cefnogi'n llawn wrth iddynt baratoi ar gyfer eu harholiadau. O ganlyniad, rydym wedi cynhyrchu rhaglen adolygu ar ôl ysgol a fydd yn dechrau ar ôl hanner tymor mis Chwefror. Os ydych yn rhiant neu'n ofalwr i ddisgybl ym mlynyddoedd 10 neu 11, gwnewch bob ymdrech i sicrhau bod eich plentyn/plant yn mynychu'r dosbarthiadau adolygu sy'n berthnasol iddynt. Rydym wedi rhoi manylion y rhaglen i fyfyrwyr. Gellir dod o hyd i'r rhaglen hefyd ar ein gwefan neu drwy ddilyn y ddolen isod. Bydd y rhaglen yn cael ei diwygio a'i diweddaru wrth i ni agosau at yr arholiadau.

Year 11 revision timetables 2025.docx

**Noson Helpu o Adref i rieni a gofalwyr Blwyddyn 7 ac 8 - Dydd Mawrth 11eg Mawrth, 5:00pm – 6:00pm.**

Rydym yn bwriadu cynnal noson i rieni disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 i rannu arweiniad ar sut i gefnogi dysgu eich plentyn/plant a rhai technegau profedig y gellir eu defnyddio i uchafu cynnydd a wna disgyblion yn yr ysgol. Dewch i ymuno â ni.



ONLINE SAFETY MARK 360safe ACCREDITED SAFER ONLINE
British Dyslexia Association Bronze Organisational Member

**Presenoldeb.**

Mae'n bwysig bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn er mwyn cael y budd mwyaf o'r addysg a ddarperir. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn mynychu'n dda ac mae ein canlyniadau TGAU yn adlewyrchu'n agos ein cyfraddau presenoldeb da. Mae ein cyfradd presenoldeb ysgol gyfan ar hyn o bryd bron yn 92%, ac er ei fod yn ddarlun sy'n gwella, a'n bod yn cymharu'n dda ag ysgolion eraill, mae hyn yn dal yn is na'r lefelau cyn-bandemig. Rydym yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud i dargedu absenoldebau cyson rhai disgyblion a byddwn yn parhau i atgoffa pob rhiant/gofalwr a'u plentyn/plant o bwysigrwydd presenoldeb da. A fyddech cystal â'n cefnogi i sicrhau bod eich plentyn/plant yn gwneud pob ymdrech i fynychu'r ysgol.

**Offer.**

Yn anffodus, rydym yn canfod bod nifer o ddisgyblion nad ydynt yn dod ag offer fel beiros, pensiliau a phren mesur i'r ysgol. Mae offer sylfaenol fel hwn yn gwbl angenrheidiol i sicrhau bod disgyblion yn gallu gwneud a chwblhau eu gwaith ac i sicrhau eu bod yn perfformio hyd eithaf eu gallu. Gofynnwn yn garedig i chi wirio bod gan eich plentyn/plant yr offer angenrheidiol yn rheolaidd.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus. Dymunwn hanner tymor diogel a phleserus i chi.

Paul Edwards